# Nodweddion Diddorol

**Gweler taith gerdded Cwm Hengae i gael gwybodaeth am Aberllefenni.**

A Bu'r gronfa ddŵr hon, a elwir 'Llyn Owain Lawgoch', yn cyflenwi dŵr i bweru'r felin lechi ar draws y ffordd. Mae yna hanes sy'n cysylltu ysbryd Owain Lawgoch â bwgan yn y Plas, sef y tŷ mawr ar draws y ffordd. Ar ôl profi digwyddiadau rhyfedd yn y tŷ, cyflogwyd allfwriwr i geisio cael gwared ar yr ysbryd direidus. Wedi cryn dipyn o berswâd, cytunodd yr ysbryd i adael, ar yr amod y byddai'n dod yn ôl pan fyddai'r holl hoelion wedi disgyn o ddrws y tŷ a'r holl lwyfenni wedi disgyn ar y tiroedd cyfagos. Gyda hyn rhoddwyd ysbryd Owain Lawgoch mewn potel a'i daflu i'r afon. Mae drws y tŷ wedi hen fynd ac mae pob llwyfen ond un wedi disgyn. Efallai ei bod hi'n bryd i Owain Lawgoch ddod yn ei ôl!

B Nid yn unig y bu hen dramffordd y chwarel yn cludo llechi o'r mwynglawdd, bu hefyd yn dosbarthu post a glo, ac yn cludo eirch i'r mynwentydd lleol.

C Safai pedwar tŷ chwarel yma unwaith, gyda'r tŷ ar y pen yn cael ei ddefnyddio fel siop hefyd. Byddai'r chwarelwyr yn dod at y ffenestr fae i brynu nwyddau. Safai'r capel Methodistaidd Calfinaidd drws nesaf i'r bythynnod. Cynhaliwyd y gwasanaeth olaf yma yn 1932.

D Dyma adfeilion sied y gof, a'r siediau naddu llechi.

E Gorlifodd cronfa ddŵr y chwarel yn 1936 a llifodd y dŵr i lawr y mynydd, gan olchi drwy'r stablau islaw. Yn ffodus, ni chafwyd unrhyw anafiadau, ond mae'r nant yn dal i lifo drwy'r adeilad.

F Ar un adeg, perchennog y chwarel sef Horatio Nelson Hughes oedd yn berchen ar Blas Ralltgoed. Byddai'r tŷ wedi bod yn drawiadol iawn yn ei ddydd, gyda'i erddi addurnol, ei bont a'i rodfa â chlwydi.

G Tŷ Crynwyr yw Dolgoed, a dywedir mai ef yw'r tŷ hynaf yn Sir Feirionnydd. Saif ywen yn yr ardd, sydd efallai'n arwydd o hen gladdfa.

H Wedi'i enwi ar ôl yr afon sy'n llifo nesaf ato, mae Ceiswyn yn dyddio o'r 16eg ganrif. Dywedir mai cartref Sion Lloyd ydoedd, gŵr a oroesodd ymosodiad gan Wylliaid Cochion Dinas Mawddwy, grŵp ysgeler o ladron pen ffordd gwallt coch oedd wrthi yn yr ardal afreolus hon yn yr 16eg ganrif.



# Points of Interest

**For information about Aberllefenni see Cwm Hengae walk.**



Llun/Picture Ceirios Davies

A This reservoir known as 'Llyn Owain Lawgoch' supplied water to power the slate mill across the road. There is a story linking the spirit known as Owain Lawgoch to a haunting at the 'Plas', the large house across the road. Having encountered strange occurrences at the house an exorcist was employed to try and remove the mischievous spirit. After some persuasion the spirit agreed to leave, on the condition that he would return once all the nails had fallen from the front door and all the elm trees had fallen in the surrounding grounds. With this the spirit of Owain Lawgoch was placed in a bottle and thrown into the river. Now the door has long since gone and all the trees apart from one have fallen. Perhaps it's time for Owain Lawgoch to return!

B The old quarry tramline not only carried slate from the mine, it also delivered post, coal, and also transported coffins to the local burial grounds.

C Four quarry houses once stood here, with the end house doubling up as a shop. Quarrymen would visit the bay window to buy provisions. Next to the cottages stood the Calvinist Methodist chapel. The last service was held here in 1932.

D Here are the remains of the Blacksmith's shed, and slate dressing sheds.

E In 1936 the quarry reservoir burst its banks and water gushed down the hillside, crashing through the stables below. Luckily there were no casualties, but the stream still flows through the building.

F Plas Ralltgoed was once owned by the quarry owner Horatio Nelson Hughes. In its day, the house would have been very impressive, boasting ornamental gardens together with a bridge and gated driveway.

G Dolgoed is a quaker house, said to be the oldest house in Meirionnydd. A yew tree stands in the garden, which possibly denotes an ancient burial ground.

H Named after the river that flows next to it, Ceiswyn dates from the 16th century. It is said to be the home of Sion Lloyd, who survived an ambush by the Gwylltiaid Cochion or Red Brigands of Dinas Mawddwy, an infamous group of red-haired highwaymen who operated in this lawless area during the 16th century.





Clawr/Cover Ceirios Davies



Taith Gerdded Cwm Ralltgoed

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Cwm Ralltgoed Walk



| | |
|---|---|
| **Dechrau:** | Maes parcio coedwig CNC. Trowch i'r dde yn union cyn arwydd pentref Aberllefenni |
| **Cyfeirnod Grid:** | SH 769 092 |
| **Pellter:** | 8.4 km - 5.2 milltir |
| **Tirwedd:** | Ffordd tarmac, trac cadarn a choetir. Gall rhai darnau fod yn fwdlyd ac â gordyfiant arnynt |
| **Gradd:** | Hawdd/Cymedrol |
| **Mapiau:** | Arolwg Ordnans Explorer – OL23 |
| **Lluniaeth:** | Cyfleusterau agosaf: Canolfan Grefft Corris, Caffi Institiwt Corris, Amgueddfa Rheilffordd Corris, Tŷ Bynciau Braich Goch, Tafarn y Chwarelwr a chanolfan ymwelwyr Tŷ Te Cadair, Tal-y-llyn |



| | |
|---|---|
| **Start:** | NRW forest car park. Turn *R* just before Aberllefenni village sign |
| **Grid Reference:** | SH 769 092 |
| **Distance:** | 8.4 km - 5.2 miles |
| **Terrain:** | Tarmac road, firm tracks & woodland. Some sections may be muddy/overgrown |
| **Grade:** | Easy/Moderate |
| **Maps:** | OS Explorer – OL23 |
| **Refreshments:** | Nearest facilities: Corris Craft Centre, Corris Institute Café, Corris Railway Museum, Braich Goch bunkhouse, Slaters Arms pub, and Tŷ Te Cadair visitor centre, Tal-y-llyn |






1 O'r maes parcio, cerddwch nôl i fyny i'r ffordd a'i dilyn i'r dde trwy Aberllefenni. Trowch i'r dde o amgylch pwll dŵr A a dilynwch y ffordd i fyny, gan anwybyddu'r troad yn union ar y dde. Ewch ar hyd y ffordd hon gan anwybyddu llwybr gyda chyfeirbwynt i'r chwith. Ar ôl y tro i'r chwith lle mae'r ffordd yn dechrau disgyn wrth ymyl tŷ, trowch i'r chwith ar hyd trac coedwigaeth i'r coetir.

2 Ar gyffordd y trac, trowch i'r dde ar draws pont fach ac ewch drwy ddwy giât, gan anwybyddu'r troad ar y dde. Ewch ymlaen gyda'r afon ar y chwith ac ewch drwy giât, gan anwybyddu unrhyw droadau ar y chwith B. Ewch drwy giât i fynd heibio adfeilion hen gapel a bythynnod chwarel C, ewch i'r chwith a mynd tuag at hen adeilad chwarel D. Mae'r llwybr yn mynd heibio nifer o hen adfeilion E ac yn parhau trwy giât nesaf at Blas Ralltgoed F cyn mynd ymlaen trwy giât arall. Trowch i'r chwith wrth y postyn â chyfeirbwyntiau nesaf at goeden fawr ac ewch tuag at gornel y cae, gan fynd heibio'r paneli solar ar y dde, i fynd trwy giât fach ddu. Ewch i lawr llethr coediog serth heibio Dolgoed G.

1 From the car park walk back up to the road, and follow it *R* through Aberllefenni. Fork *R* around a pond A and head uphill, ignoring the turning on your immediate *R*. Continue along this road disregarding a waymarked path to the *L*. After a *LH* bend where the road starts to descend next to a house, fork *L* along a forestry track into the woodland.



Llun/Picture Ceirios Davies

# Taith Cwm Ralltgoed Walk

3 Trowch i'r chwith ar y trac i groesi pont droed fach a throwch i'r chwith trwy gât mochyn. Cadwch i'r chwith gyda'r ffens i groesi pont droed llechi fach H a throwch i'r chwith i'r trac fferm i fyny tuag at y goedwig, trwy gât mochyn, ac ewch yn eich blaen. Wrth gyffordd yn y trac, trowch i'r chwith i ddilyn y trac yn ôl i lawr trwy'r goedwig i fynd trwy gât mochyn arall. Ewch ar hyd y trac nes cyrraedd y bont a groesoch yn gynharach fel 2 uchod. Trowch i'r dde i fynd i fyny i'r coed.

4 Wrth y gyffordd trowch i'r chwith ar hyd trac, wedyn i lawr trwy giât ac ymlaen nes cyrraedd y ffordd. Trowch i'r dde ac ewch yn ôl o amgylch y pwll dŵr yn ôl i'r maes parcio.

2 At the track junction fork *R* across a small bridge and go through two *G*s, ignoring the turning on the *R*, and carry on with the river on the *L* to go through a *G* ignoring any turnings on the *L* B. Go through a *G* to pass the ruins of an old chapel and quarry cottages C, take the *L* fork and head towards an old quarry building D. The path skirts numerous old ruins E and continues through a *G* next to 'Plas Ralltgoed' F and on through another *G*. At a waymarker post next to a large tree turn *L* and head towards the corner of the field, passing solar panels on the *R*, to go through a small black *G*. Head down a steep wooded bank past Dolgoed G.

3 Turn *L* at the track to cross a small *FB* and *L* through a kissing *G*. Keep *L* with the fence to cross a small slate *FB* H and turn *L* on to the farm track up towards the forest, through a kissing *G*, and continue. At a track junction, turn *L* to follow track back down through the trees to go through another kissing *G*. Continue along the track until you reach the bridge you crossed earlier at 2. Take the *R* fork uphill into the woods.

4 At a junction turn *L* along a track, later down through a *G* and on until you reach the road. Turn *R*, and retrace your route around the pond and back to the car park.

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2014 Arolwg Ordnans 100019741.2014

© Crown copyright and database rights 2014 Ordnance Survey 100019741.2014

© Lluniau/Pictures Jeremy Moore